



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1354A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae un mater i'w adrodd i chi cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	8
Atodiad 2 – Llythyr Sylwadau Terfynol: Prif Gwnstabl	11
Atodiad 3 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	14
Atodiad 4 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i'r Prif Gwnstabl	18
Atodiad 5 – crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl atynt	22

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am ddarparu barn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru (y Prif Gwnstabl) ar 31 Mawrth 2019 a'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, yn hytrach rydym yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi'r camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all arwain at gamarwain darlennydd y cyfrifon.
- 3 Y lefel feintiol yr ydym yn barnu bod camddatganiadau o'r fath yn sylweddol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yw £2.230 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau eraill. Rydym wedi defnyddio lefel wahanol i farnu camddatganiadau yn sylweddol ar gyfer Cronfa Bensiwn yr Heddlu. Y lefel feintiol ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau eraill ar gyfer Cronfa Bensiwn yr Heddlu yw £0.475 miliwn. Gall materion ansoddol effeithio ar farn ar ba un a yw eitem yn sylweddol ai peidio hefyd, megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a sensitifrwydd gwleidyddol.
- 4 Mae Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol inni adrodd materion penodol sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn digon o amser i allu cymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion i'w hystyried sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2018-19 y mae'n ofynnol i'w hadrodd o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Cawsom ddrafft o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018-19 ar 31 Mai, yn unol â'r dyddiad cau newydd ar gyfer Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018 eleni. Erbyn hyn, rydym ni fwy neu lai wedi cwblhau'r gwaith archwilio.
- 7 Rydym yn adrodd i chi y materion mwy arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, yr ydym o'r farn y mae'n rhaid i chi eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio wedi trafod y materion hyn eisoes â Phrif Swyddog Cyllid swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y Prif Gwnstabl.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ôl ichi gyflwyno Llythyron Sylwadau ar sail y rhai a nodir yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 2](#).
- 9 Mae'r adroddiadau archwilio arfaethedig wedi'u nodi yn [Atodiad 3](#) ac [Atodiad 4](#).

Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 10 Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol sy'n parhau heb eu cywiro.

Camddatganiadau wedi'u cywiro

- 11 Mae camddatganiadau sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond yr ydym o'r farn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau yn ystod y broses adrodd ariannol. Maent wedi'u nodi ynghyd ag esboniadau yn [Atodiad 5](#).

Materion arwyddocaol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

- 12 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion meintiol ac ansoddol sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd ichi unrhyw faterion sylweddol sy'n deillio o hynny. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

Nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol.

- 13 Canfuwyd gennym fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy yn gymharol, yn sylweddol ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau yn y datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn eglur.

Ni chawsom unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.

- 14 Cawsom wybodaeth mewn modd prydlon a defnyddiol ac ni chawsom ein rhwystro yn ein gwaith. Fe wnaethom adrodd i chi yn 2017-18 y cawsom anawsterau yn cael yr wybodaeth i'n galluogi i gynnal ein harchwiliad o gostau'r gyflogres yn y datganiadau ariannol. Mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi gweithio gyda thîm y gyflogres yn ystod y flwyddyn ac erbyn hyn mae gennym afael uniongyrchol ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnom ac rydym wedi gallu cwblhau ein profion mewn modd prydlon.

Trafodwyd a gohebwyd â'r rheolwyr am un mater o bwys y mae angen i ni ei adrodd i chi.

- 15 Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd Lys yr Apêl yn erbyn y Llywodraeth, gan nodi bod y newidiadau a wnaed i gynlluniau pensiwn yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp o swyddogion cyhoeddus ar sail oedran. Roedd y newidiadau yn cwmpasu newid o sail cyflog terfynol i sail cyfartaledd gyrfa. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth i apelio yn erbyn y penderfyniad. Cyfeirir at y gyfres hon o ddigwyddiadau fel dyfarniad McCloud.
- 16 Mae'r gost o roi iawndal i'r gweithwyr yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn sylweddol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod dyfarniad McCloud yn arwain at gost gwasanaeth yn y gorffennol a rhwymedigaeth yng nghwmpas cyfrifyddu ar gyfer pensiynau mewn awdurdodau lleol y dylid eu priodoli fel rhwymedigaeth ychwanegol pan fo'n bosibl gwneud amcangyfrif rhesymol.
- 17 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a gaiff ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, a Hymans yw actiwari'r cynllun. Mae cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn benodol ar gyfer swyddogion yr heddlu, a chaiff ei goruchwyllo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.
- 18 Mae effaith ariannol y dyfarniad cyfreithiol hwn wedi'i asesu gan yr actiwari'aid. Ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'r actiwari wedi nodi nad oes angen rhwymedigaeth ychwanegol oherwydd bod y cynnydd mewn cyflog hirdymor a fabwysiadwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfateb i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ac o ganlyniad i hyn, at ddiben adroddiad pensiwn 2018/19, nid oes angen i'r Comisiynydd a'r Prif Weithredwr gydnabod rhwymedigaeth ychwanegol o ganlyniad i'r dyfarniad.
- 19 Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cynnal adolygiad o effaith dyfarniad McCloud ar Gronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ac wedi cyfrifo rhwymedigaeth ychwanegol o £75,000,000. Mae'r rhwymedigaeth ychwanegol hon wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol ac mae'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn i £1,878 miliwn.

Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill ynghylch goruchwyllo'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni eu hadrodd i chi.

- 20 Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill ynghylch goruchwyllo'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni eu hadrodd i chi.

Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau sylweddol yn eich rheolaethau mewnol.

- 21 Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i oruchwyllo'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni eu hadrodd i chi.

Nid oes unrhyw faterion y mae'n ofynnol yn benodol yn unol â safonau archwilio i ni eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

22 Nid oes unrhyw faterion eraill (fel y rhai sy'n ymwneud â thwyll, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, neu ddigwyddiadau dilynol) y mae angen i ni eu hadrodd i chi

Annibyniaeth a gwrthrychedd

23 Yn rhan o'r broses gwblhau, mae'n ofynnol i ni gyflwyno sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

24 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol ni, rydym yn annibynnol ac ni amharwyd ar ein gwrthrychedd. Nid oes unrhyw berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl yr ydym o'r farn y byddai'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
Glan Y Don,
Abergele Road,
Bae Colwyn
LL29 8AW

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Gorffennaf 2019

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2018-19

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi yn briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud ymholiadau digonol, yn ein barn ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau:

- I baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019; yn benodol mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- I lunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwall.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym ni wedi rhoi i chi:

- Fynediad lawn:

- at yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, megis cyfrifyfrau a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - at yr wybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; ac
 - at unrhyw aelodau staff sy'n angenrheidiol yn eich barn chi er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll:
 - Ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, gan gynnwys:
 - rheolwyr;
 - gweithwyr mewn swyddi arwyddocaol neu reolaeth fewnol; neu
 - eraill y gallai eu twyll arwain at effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.
 - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëir gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill.
 - Ein gwybodaeth am bob achos y gŵyr amdano o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
 - Enw'r holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodiadau y bobl gysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu a'u hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a gaiff eu mesur yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Ystyriwyd a datgelwyd perthynas a thrafodiadau pobl gysylltiedig yn briodol.

Addaswyd a datgelwyd yr holl ddogfenniadau y mae angen eu haddasu neu eu datgelu a gododd ar ôl y dyddiad adrodd.

Mae'r holl ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol neu bosibl y gŵyr amdanynt y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol, wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u hystyried a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd rhag cam-ddatgan sylweddol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau cam-ddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

Sylwadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Rwy'n cydnabod y trafodwyd y sylwadau uchod a wnaed gan y rheolwyr â ni.

Rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb ar gyfer paratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwyais y datganiadau ariannol ar 30 Gorffennaf 2019.

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod i'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnod:

K Jackson

Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a
Throseddu Gogledd Cymru

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2019

Llofnod:

Arfon Jones

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Gogledd Cymru

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2019

Atodiad 2

Llythyr Sylwadau Terfynol

Prif Gwnstabl Gogledd Cymru
Glan Y Don,
Abergele Road,
Bae Colwyn
LL29 8AW

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Gorffennaf 2019

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2018-19

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi yn briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud ymholiadau digonol, yn ein barn ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau:

- I baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019; yn benodol mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- I lunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwall.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym ni wedi rhoi i chi:

- Fynediad lawn:

- at yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, megis cyfrifyfrau a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - at yr wybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; ac
 - at unrhyw aelodau staff sy'n angenrheidiol yn eich barn chi er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll:
 - Ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Brif Gwnstabl Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, gan gynnwys:
 - rheolwyr;
 - gweithwyr mewn swyddi arwyddocaol neu reolaeth fewnol; neu
 - eraill y gallai eu twyll arwain at effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.
 - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflêir gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill.
 - Ein gwybodaeth am bob achos y gŵyr amdano o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
 - Enw'r holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodiadau y bobl gysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu a'u hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a gaiff eu mesur yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Ystyriwyd a datgelwyd perthynas a thrafodiadau pobl gysylltiedig yn briodol.

Addaswyd a datgelwyd yr holl ddigwyddiadau y mae angen eu haddasu neu eu datgelu a gododd ar ôl y dyddiad adrodd.

Mae'r holl ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol neu bosibl y gŵyr amdanynt y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol, wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u hystyried a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatgan sylweddol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

Sylwadau gan Brif Gwnstabl Gogledd Cymru

Rwy'n cydnabod y trafodwyd y sylwadau uchod a wnaed gan y rheolwyr â ni.

Rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb ar gyfer paratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwyais y datganiadau ariannol ar 30 Gorffennaf 2019.

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod i'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol a sicrhau ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnod:

Richard Muirhead

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Prif
Gwnstabl Gogledd Cymru

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2019

Llofnod:

Carl Foulkes

Prif Gwnstabl Gogledd Cymru

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2019

Atodiad 3

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Adroddiad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad o Lif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau hyn yw cyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019 ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019.

Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Ceir disgrifiad manylach o fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol o fy

adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf i wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ffurfio sylfaen i fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol imi adrodd arnynt pan:

- nad yw'n briodol cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a nodwyd a all beri amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac y mae fy archwilwyr yn adrodd arni. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, ac oni nodir fel arall yn eglur yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir ar sail yr wybodaeth a roddwyd imi wrth gynnal yr archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau

ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau hyn.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a'u hamgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw'n briodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran y datganiadau ariannol

Fel y caiff ei esbonio yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 11, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw paratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, sy'n rhoi darlun gwir a theg, a chyfrifoldeb y swyddog cyfrifol hefyd yw'r rheolaeth fewnol y mae'n penderfynu y mae ei angen i allu paratoi datganiadau o gyfrifon heb unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a chyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni phennir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad

sylweddol pan fo'n bresennol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn sylweddol os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu sylweddol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau hyn yw cyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019 ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019.

Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Ceir disgrifiad manylach o fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol o fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf i wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ffurfio sylfaen i fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol imi adrodd arnynt pan:

- nad yw'n briodol cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a nodwyd a all beri amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac y mae fy archwilwyr yn adrodd arni. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, ac oni nodir fel arall yn eglur yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir ar sail yr wybodaeth a roddwyd imi wrth gynnal yr archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau hyn.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw'n briodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Rwyf yn ardystio felly fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran y datganiadau ariannol

Fel y caiff ei esbonio yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 11, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw paratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru sy'n rhoi darlun gwir a theg, a chyfrifoldeb y swyddog cyfrifol hefyd yw'r rheolaeth fewnol y mae'n penderfynu y mae ei angen i allu paratoi datganiadau o gyfrifon heb unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, cyfrifoldeb y swyddog ariannol cyfrifol yw asesu gallu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a chyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni phennir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fo'n bresennol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn sylweddol os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 5

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond yr ydym o'r farn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau yn ystod y broses adrodd ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£75 miliwn	<p>Cynnydd yn y Rhwymedigaeth Pensiwn yn y Fantolen ac yn Nodyn 34 'Cynlluniau Pensiwn Buddion Diffiniedig' i adlewyrchu effaith amcangyfrifedig dyfarniad McCloud ar wahaniaethu ar sail oedran dan y cynllun pensiwn.</p> <p>Mae addasiadau cyfatebol wedi'u gwneud i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, Datganiad ar Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Llif Arian, Cronfa Bensiwn Wrth Gefn a nodiadau ategol.</p> <p>Ni chaiff yr addasiad hwn unrhyw effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy.</p>	<p>Mae rhwymedigaeth pensiwn ychwanegol wedi codi ar ôl dyfarniad McCloud, a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol o'r effaith.</p>
Bu llawer o fân ddiwygiadau a diweddariadau datgelu hefyd o ganlyniad i'n gwaith.		

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru